WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Hydref 2010
www.wao.gov.uk

# Amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2012

# Amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2012

Cyflwynwyd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Baragraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Rôl yr Archwilydd Cyffredinol | 7 |
| Sut yr ariennir gwaith Swyddfa Archwilio Cymru | 7 |
| Lefel y gweithgarwch a'r gwasanaeth rwyf yn bwriadu ei darparu | 9 |
| Gwaith archwilio ychwanegol sy'n codi yn 2011-12 | 10 |
| Meysydd newydd a pharhaus o ansicrwydd sy'n effeithio ar Swyddfa Archwilio Cymru | 12 |
| Enillion effeithlonrwydd a gyflawnwyd eisoes neu sydd ar droed | 13 |
| Gwelliannau effeithlonrwydd arfaethedig a dulliau eraill o gyfyngu costau | 14 |
| Atodiad 1 – Crynodeb o ofynion cyllideb 2011-12 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllidebol Gweinidogion Cymru o dan adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 | 16 |
| Atodiad 2 – Dadansoddiad manwl o'r incwm a'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2011-12 | 18 |
| Atodiad 3 – Effaith bosibl diddymu'r Comisiwn Archwilio | 21 |

# Crynodeb

1 Caiff fy nghyllideb, fel Archwilydd Cyffredinol, ei phennu[1] ar ôl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus archwilio fy amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau a'i gymeradwyo cyn ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Felly gwahoddaf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) i archwilio, cymeradwyo a chyflwyno'r amcangyfrif hwn o'm hincwm a'm treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2012.

2 Mae'r amcangyfrif rwyf yn ei gyflwyno yn darparu gostyngiad o 7.0 y cant mewn termau real yn erbyn yr adnoddau y gwnaed cais amdanynt yn 2010-11. O ran adnoddau, rwyf yn gofyn am £4.853 miliwn, o gymharu â £5.047 miliwn yn 2009-10 a 2010-11. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu'r ffaith fy mod yn cydnabod cyflwr cyffredinol cyllid cyhoeddus, a'r ffaith fy mod yn ceisio gwneud arbedion priodol. Aethpwyd i gostau ychwanegol ym mlwyddyn ariannol 2010-11, a'r mwyaf nodedig yn eu plith oedd tâl am gostau ymddeol yn gynnar er mwyn rheoleiddio ein cyfrifon. Er na ragwelir y bydd angen cais atodol am adnoddau, serch hynny, bydd angen rheoli'r gyllideb yn ofalus yn ystod y ddwy flynedd nesaf er mwyn mantoli'r gyllideb.

3 Mae fy amcangyfrif yn seiliedig ar barhau i ddarparu'r lefel o weithgarwch a gwasanaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i disgwyl yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Er bod rhan helaeth o'r gwaith hwn yn ddewisol, credaf ei bod yn bwysig parhau i ddarparu'r lefelau gwasanaeth presennol sy'n cynnwys:

a tua deuddeg astudiaeth bob blwyddyn o Lywodraeth y Cynulliad a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cysylltiedig, gan gynnwys y GIG;

b yr hyblygrwydd i ymateb i geisiadau byr rybudd i graffu ar archwiliadau, er enghraifft, yn deillio o ohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd ac aelodau'r Cynulliad;

c y Gyfnewidfa Arfer Da (y GPX), sef cyfleuster ar-lein a gynlluniwyd i helpu cyrff cyhoeddus i nodi enghreifftiau o arfer gorau yn hawdd er mwyn eu helpu i wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ac agweddau eraill ar werth da am arian;

d ffyrdd eraill o rannu arfer da drwy gynadleddau, seminarau a chyhoeddiadau; a

e chymorth i'r Pwyllgor ar ffurf gwybodaeth a chyngor.

4 Mae fy amcangyfrif hefyd yn ystyried pwysau cost hysbys a disgwyliedig a chodiadau arfaethedig pellach o ran effeithlonrwydd a mesurau cyfyngu costau eraill y ceir manylion amdanynt yn ddiweddarach yn y ddogfen hon. Ers ei chreu, mae Swyddfa Archwilio Cymru, yn wirfoddol, wedi cymhwyso'r gofyniad, a bennwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i gyrff cyhoeddus fel rhan o'i pholisi Creu'r Cysylltiadau, i gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd cronnol o un y cant y flwyddyn o leiaf. Mae'r archwiliad mewnol wedi cadarnhau bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhagori ar y gofyniad hwnnw. Mae'r

1 O dan Baragraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006).

pwysau cost hysbys a disgwyliedig yn cynnwys:

a Gwaith newydd sydd ei angen i ymdrin â chanlyniadau diddymu'r Comisiwn Archwilio, yn arbennig effaith hynny ar y Fenter Twyll Genedlaethol (yr NFI), yr wyf yn ymgymryd â hi ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio ac asiantaethau archwilio eraill yn y DU. Mae'r arwyddion gan lywodraeth y DU yn awgrymu y bydd y trefniadau presennol yn parhau. Fodd bynnag, pe bai'r sefyllfa yn newid, amcangyfrifir y gallai Swyddfa Archwilio Cymru wynebu cost ychwanegol o £350,000. Yn ogystal, byddai angen i mi ymgymryd â gwaith cyfreithiol er mwyn gwneud trefniadau i barhau â'r Fenter, a lwyddodd i atal a chanfod £4.5 miliwn o dwyll a gordaliadau o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ei hymarfer diwethaf (2008-09). Ymhlith meysydd eraill o waith newydd mae gwneud trefniadau ar gyfer ardystio rhai grantiau penodol sydd ar gael i'r DU gyfan, datblygu neu gaffael cymorth prisio actiwaraidd a chymorth prisio eiddo i helpu i gwblhau archwiliadau, datblygu adnodd cymhorthdal tai newydd a gaiff ei drwyddedu ar hyn o bryd gan y Comisiwn Archwilio a sefydlu trefniadau cymorth archwilio newydd i gynghorau cymuned a wnaed yn y gorffennol gan y Comisiwn Archwilio.

b Cynnydd yn nifer yr astudiaethau trawsbynciol sy'n archwilio materion sy'n ymwneud â darparu a rheoli gwasanaethau cyhoeddus ar draws ffiniau sefydliadol; er enghraifft, ystyried gwaith Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol - mae astudiaethau o'r fath yn gofyn am ymgynghori a gwaith cydgysylltu sy'n defnyddio cryn dipyn o adnoddau a delio â sefydliadau sydd â ffyrdd o weithio, systemau a ffynonellau gwybodaeth gwahanol ac mae cydgysylltu ein gwaith gan ystyried y gwahaniaethau hyn yn gwneud astudiaethau o'r fath yn ddrutach nag astudiaethau sy'n canolbwyntio ar sectorau unigol.

c Datblygu ymhellach ddulliau o rannu arfer da ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cynadleddau, seminarau ac adroddiadau.

d Gwaith i fodloni gofynion i fod yn fwy tryloyw ac agored, gan gynnwys darparu gwybodaeth helaeth am weithrediad Swyddfa Archwilio Cymru drwy ei chynllun cyhoeddiadau a chofnod datgelu, ac ymdrin â chynnydd disgwyliedig yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a chymhlethdod y ceisiadau hynny, sy'n aml yn cynnwys ymholiadau ategol manwl nas ystyrir yn geisiadau ar wahân, a cheisiadau eraill am wybodaeth. Yn seiliedig ar y duedd lle gwelwyd cynnydd parhaus yn nifer y ceisiadau o'r fath dros y blynyddoedd blaenorol, disgwyliaf i gost y gwaith hwn gynyddu i tua £50,000.

e Datblygu trefniadau mewn ymateb i ddeddfwriaeth cydraddoldebau newydd a deddfwriaeth cydraddoldebau sydd eisoes ar waith.

f Atgyfnerthu trefniadau llywodraethu corfforaethol ymhellach, er enghraifft, drwy ddatblygu gwell polisïau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ac Adnoddau Dynol gyda'r gobaith o leihau'r gwariant yn y tymor canolig ar gwynion a materion disgyblu.

g Gwella'r ystad TGCh.

5 Mae yna rai meysydd o ansicrwydd hefyd, fel y posibilrwydd o newidiadau mewn perthynas â'r hyn y gallwn ei wneud o ran codi Treth ar Werth (TAW) a gwrthbwyso yn erbyn TAW taladwy. Nid wyf wedi cynnwys unrhyw swm ychwanegol yn yr amcangyfrif i ymdrin â hyn,

ond rwyf wedi cynnwys gwybodaeth am y mater hwn, gan y dylwn sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol ohono. Deallaf fod CThEm yn bwriadu penderfynu ar y mater hwn erbyn mis Mawrth 2011. Fel y gwelwyd mewn amcangyfrifon blaenorol a gyflwynwyd, gall penderfyniad CThEM effeithio'n sylweddol arnom a gallai fod yn rhaid i mi wneud cais am adnoddau ychwanegol.

6 Mae fy nghynnydd arfaethedig o ran effeithlonrwydd a mesurau cyfyngu costau yn cynnwys:

- **a** Gostyngiad o tua 4 y cant mewn costau cyflog yn deillio o weithredu cynllun diswyddiadau cynnar gwirfoddol.
- **b** Cyfyngiad cyflog a gaiff ei gydnabod yn y cylch cyflogau nesaf er na fu unrhyw ddyfarniad cyflog ar gyfer 2009-10 na 2010-11.
- **c** Gohirio gwariant, ac arbedion cost mewn amrywiaeth eang o feysydd gan gynnwys tanysgrifiadau, gwaith ymgynghori a defnyddio ystafelloedd cyfarfod allanol.
- **d** Gostyngiad yn yr adnoddau a ddefnyddir i ymdrin â chwynion gan staff ac anghydfodau cyflogaeth eraill. Rwyf yn bwriadu cyflawni hyn drwy amrywiaeth o welliannau llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys pwyllgor taliadau a pholisïau staff cliriach.
- **e** Trefniadau rheoli fflyd newydd yn dilyn cytundeb gyda staff ac undebau a fydd yn helpu i gyflawni arbedion yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar iechyd a diogelwch a'r amgylchedd.

7 Wrth ystyried a chyflwyno fy amcangyfrif, mae'r Pwyllgor yn pennu tri swm i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllidebol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2012. Mae angen tri swm o ganlyniad i ofynion cyfrifyddu adnoddau (sy'n wahanol i gyfrifyddu arian parod), sy'n berthnasol yn rhannol i'm cyfrifon, ac o ganlyniad i'r gofyniad i'r Cynulliad Cenedlaethol awdurdodi'r defnydd o rai adnoddau penodol a godir gennyf drwy ffioedd.

8 Mae'r tri swm fel a ganlyn:

- **a** cyfanswm yr adnoddau (ac eithrio ffioedd ac ati) i'w defnyddio wrth weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru a chyflawni swyddogaethau statudol – £4.853 miliwn;
- **b** adnoddau o ffioedd ac ati, i'w defnyddio ar wasanaethau cysylltiedig ac wrth weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru – £8.024 miliwn; ac
- **c** arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu symiau sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn – £4.753 miliwn.

9 Mae Atodiad 1 yn darparu disgrifiad llawn o'r tri swm yn y termau sydd eu hangen i'w cynnwys o fewn cynnig cyllidebol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Atodiad 2 yn rhoi dadansoddiad manwl o'r incwm a'r gwariant amcangyfrifedig, ynghyd â ffigurau cymharol ar gyfer 2010-11.

10 Yn ogystal â'r symiau hyn, rwyf yn cronni adnoddau o rai gweithgareddau llywodraeth leol penodol y caniateir i mi eu cadw i'w defnyddio mewn perthynas â'r gweithgareddau hynny. Yn ystod 2011-12, amcangyfrifaf y bydd yr adnoddau hyn yn dod i gyfanswm o £11.379 miliwn (2010-11: £11.920 miliwn). Nid yw'n ofynnol i mi dalu incwm o'r fath i Gronfa Gyfunol Cymru, felly nid yw'n rhan o'r swm i'w awdurdodi. Fodd bynnag, cyfeiriaf ato yn y ddogfen hon er mwyn gosod cyllid Swyddfa Archwilio Cymru yn ei gyd-destun llawn.

## Rôl yr Archwilydd Cyffredinol

11 Rôl yr Archwilydd Cyffredinol:

a Archwilio cyfrifon Comisiwn y Cynulliad, Cronfa Gyfunol Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, cyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cysylltiedig gan gynnwys holl gyrff GIG Cymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol (gan gynnwys awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r heddlu, byrddau prawf awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned).

b Mae ganddo'r pŵer i gynnal archwiliadau ac astudiaethau, a chyhoeddi adroddiadau ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a gwneud argymhellion ar gyfer gwella ymhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

c Mae'n ofynnol iddo gynnal a chyhoeddi rhai astudiaethau penodol o gyrff llywodraeth leol yng Nghymru.

d Mae'n ofynnol iddo gynnal archwiliadau o gynlluniau gwella ac asesiadau gwella o bob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r cyfryw awdurdodau yn cynnwys cynghorau cymuned neu gynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

e Mae ganddo'r pŵer (ac mae dyletswydd arno, os caiff gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru) i gynnal arolygiad o awdurdod gwella yng Nghymru os na fydd wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Mesur 2009).

f Mae ganddo rai swyddogaethau penodol eraill, gan gynnwys cynnal ymarferion paru data er mwyn atal a chanfod twyll a rheoli Cronfa Gyfunol Cymru.

g Mae ganddo'r pwerau i ddarparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol i gyrff cyhoeddus mewn sefyllfaoedd o argyfwng, rhai cyrff cyfrifyddu penodol ac archwilwyr cymwys.

## Sut yr ariennir gwaith Swyddfa Archwilio Cymru

12 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal amrywiaeth eang o waith mewn sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru. Nodir y prif elfennau, ynghyd â'r ffynonellau ariannu, yn Nhabl 1.

13 Caiff bron i dri chwarter y gwaith ei ariannu gan ffioedd a godir ar gyrff a archwilir ac awdurdodau gwella. Pennir y ffioedd hyn i adennill cost lawn y gwaith dan sylw.

## Tabl 1 – Prif weithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a ffynonellau ariannu

| Gweithgaredd | Graddfa | Sut y caiff ei ariannu |
|---|---|---|
| Gwaith archwilio gwerth am arian/perfformiad mewn perthynas â Chomisiwn y Cynulliad, Llywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, GIG Cymru, y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch.<br><br>Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.<br><br>Gohebiaeth gan aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol ac aelodau'r cyhoedd.<br><br>Gweithgareddau eraill o bwys, gan gynnwys darparu'r Gyfnewidfa Arfer Da, rheoli Cronfa Gyfunol Cymru a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | Cyfanswm y gwariant sy'n destun archwiliad gwerth am arian/perfformiad yw tua £17 biliwn.<br><br>Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i hwyluso ei 18-20 o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn a rhoi cyngor ar ymatebion Llywodraeth y Cynulliad. | O Gronfa Gyfunol Cymru. Caiff rhai gweithgareddau hefyd eu hariannu gan ffioedd. |
| Archwilio cyfrifon a baratoir gan Gomisiwn y Cynulliad, Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig a chyrff iechyd. | Naw o gyfrifon a baratoir gan Lywodraeth y Cynulliad.<br><br>Chwech ar hugain o gyfrifon eraill, gan gynnwys saith Bwrdd Iechyd Lleol integredig a thair ymddiriedolaeth y GIG. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Gwaith archwilio a mesur ariannol, gwerth am arian/perfformiad mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol. | Dau ar hugain o awdurdodau unedol, pedwar awdurdod yr heddlu, tri awdurdod tân ac achub, un bwrdd prawf, tri awdurdod parc cenedlaethol, saith cronfa bensiwn a thua 740 o gynghorau cymuned. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir ac awdurdodau gwella. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu rhywfaint o arian grant i gefnogi gwaith mesur llywodraeth leol. |
| Gwaith ardystio grantiau a gwaith arall a wneir drwy gytundeb. | Gwaith a gynhelir yn bennaf yn y 22 awdurdod unedol, Llywodraeth y Cynulliad a sawl corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad. | Ffioedd a godir ar gyrff perthnasol. |

Noder: Gallai gwaith o natur drawsbynciol, megis astudiaeth sy'n cwmpasu Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol, ddod o dan fwy nag un o'r gweithgareddau uchod a chael ei ariannu drwy gyfuniad o ffioedd ac arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

## Lefel y gweithgarwch a'r gwasanaeth rwyf yn bwriadu ei darparu

**14** Er ei bod yn ofynnol yn ôl statud i mi gyflawni rhai dyletswyddau penodol, mae hefyd yn rhoi disgresiwn i mi gyflawni fy swyddogaethau. Yn fwyaf nodedig, nid yw'n ofynnol i mi gynnal unrhyw nifer benodol o astudiaethau gwerth am arian.

**15** Rwyf o'r farn bod angen ailgydbwyso cymysgedd yr astudiaethau a gynhelir, fel bod nifer ychydig yn is o astudiaethau o wasanaethau'r GIG a mwy o astudiaethau sy'n canolbwyntio ar faterion rheoli ar draws amrediad cyfan cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Ond nid wyf o'r farn y byddai'n ddoeth lleihau nifer yr astudiaethau yn gyffredinol nac y byddai gwneud hynny yn darparu lefel graffu ddigonol mewn perthynas â'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Felly mae fy amcangyfrif yn seiliedig ar barhau i ddarparu'r un lefel gyffredinol o weithgarwch a gwasanaeth ag y mae'r Pwyllgor wedi'i disgwyl yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'r gweithgarwch a'r gwasanaeth hwnnw yn cynnwys:

- **a** Paratoi a chyhoeddi adroddiadau ar astudiaethau cenedlaethol sy'n ymwneud â Llywodraeth y Cynulliad a'r corff a noddir ganddi a'i chyrff cysylltiedig, gan gynnwys y GIG. Mae nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae'n dibynnu ar raddfa gymharol ein prosiectau gwahanol. Ers dechrau mis Tachwedd 2009, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynhyrchu, yn unigol neu ar y cyd, 12 o adroddiadau cyhoeddedig.

- **b** Ymateb i geisiadau byr rybudd, gan gynnwys cwestiynau gan aelodau Pwyllgorau a gohebiaeth arall neu ddatgeliadau chwythu'r chwiban. Gall y gwaith hwn yn aml gynnwys gweithgarwch gwaith maes manwl a gall arwain at gyhoeddi adroddiad (fel yn achos yr adroddiadau a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf ar waith rheoli cyllid cyhoeddus gan Cymad Cyf a chyllid cyhoeddus coetiroedd Ffynonne a Chilgwyn).

- **c** Mae'r Gyfnewidfa Arfer Da (GPX) yn rhan o ddull Swyddfa Archwilio Cymru o gefnogi gwelliant a gwell gwerth am arian o fewn gwasanaethau cyhoeddus.Cyfleuster ar-lein sydd ar gael yn rhad ac am ddim yw'r GPX, ac mae'n galluogi cyrff cyhoeddus i nodi enghreifftiau o arfer gorau a deunyddiau eraill yn hawdd, gan eu helpu i wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ac agweddau eraill ar werth da am arian. Yn ddiweddar, cyhoeddodd ddeunydd ar gyflwyno adroddiadau ariannol amserol ac effeithlonrwydd ac arloesedd i helpu cyrff cyhoeddus i ymdrin â'r cyfyngiadau presennol ar gyllid cyhoeddus. Cydnabuwyd y rôl bwysig a chwaraewyd gan y GPX gan y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesedd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei Strategaeth Rhaglenni ar gyfer 2010-2014 fel un o'r prif ffyrdd o ategu dulliau trosglwyddo gwybodaeth, ochr yn ochr â goodpracticewales.com sydd â chysylltiad agos â'r GPX.

- **d** Dulliau eraill o rannu arfer da a throsglwyddo gwybodaeth drwy weithgareddau cyfoedion i gyfoedion, sy'n cynnwys cynadleddau a seminarau. Er enghraifft, rwyf wedi darparu seminar am ddim yn ddiweddar ar reoli'r fflyd 'lwyd' (staff yn defnyddio eu ceir eu hunain at ddibenion busnes a thaliadau cysylltiedig) sydd wedi creu cryn alw o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus. Caiff digwyddiadau tebyg a gweithgareddau dysgu a rennir ar raddfa lai eu cynnal yn rheolaidd.

e Y cymorth cyffredinol a ddarperir gennym i'r PCC a, lle y gofynnir amdano, i bwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. Mae ein mewnbwn i'r PCC yn cynnwys y wybodaeth rydym yn ei darparu mewn sesiynau cyhoeddus ar ein hadroddiadau ein hunain, ynghyd ag amrywiaeth o gymorth a chyngor fel y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgor i hwyluso ei swyddogaeth graffu.

# Gwaith archwilio ychwanegol sy'n codi yn 2011-12

### Gwaith i sicrhau bod ymarferion paru data yn parhau er mwyn atal a chanfod twyll yng Nghymru ac i ymdrin â chanlyniadau eraill diddymu'r Comisiwn Archwilio

16 Yn sgîl y lefel uwch o gydweithredu a chydweithio rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac asiantaethau archwilio eraill yn y DU, bydd y penderfyniad i ddiddymu'r Comisiwn Archwilio maes o law yn cael rhai effeithiau ymarferol pwysig ar fy ngwaith. Yn arbennig, bydd angen i mi ymgymryd â gwaith cyfreithiol a gwaith cysylltiedig i sicrhau y gall ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol barhau ar ffurf hyfyw. Llwyddodd y Fenter i atal a chanfod £4.5 miliwn o dwyll a gordaliadau o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ei hymarfer diwethaf (2008-09), felly rwyf o'r farn bod cyfiawnhad dros fuddsoddi rhywfaint yn y maes. Yn ogystal, gall lefelau ffioedd a chostau amrywio'n sylweddol o ganlyniad i ddiddymu'r Comisiwn Archwilio. Roedd dyletswydd statudol i weithio gyda'r Comisiwn Archwilio mewn sawl maes a gallai hyn arwain at gostau ychwanegol i Swyddfa Archwilio Cymru. Ceir esboniad pellach a manylach o hyn yn Atodiad 3 sy'n dangos hefyd yr ansicrwydd a wynebir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

17 Bydd angen i mi hefyd wneud trefniadau i ymdrin â chanlyniadau eraill y penderfyniad i ddiddymu'r Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cytundebau trwydded ar gyfer meddalwedd a ddefnyddiwyd ar y cyd gynt i archwilio ceisiadau am grant budd-dal tai.

### Cynyddu nifer yr astudiaethau trawsbynciol

18 Os byddaf yn parhau â'm nod o ailgydbwyso'r gymysgedd o astudiaethau, er mwyn cynnal mwy o astudiaethau trawsbynciol, bydd hyn yn gofyn am adnoddau ychwanegol. Y rheswm am hyn yw bod astudiaethau o'r fath, yn enwedig pan fyddant yn ymwneud â llywodraeth leol, fel sy'n digwydd yn aml, yn gofyn am waith ymgynghori a chydgysylltu sy'n defnyddio cryn dipyn o adnoddau. Maent o ran eu natur hefyd yn tueddu i fod yn fwy am fod angen cynnwys mwy o gyrff.

### Gwella'r Gyfnewidfa Arfer Da a systemau eraill ar gyfer rhannu arfer da

19 Argymhellodd yr Adolygiad Cymheiriaid fod angen datblygu'r fenter arfer da ymhellach drwy nifer o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys prif-ffrydio'r dull arfer da i bob agwedd ar fusnes Swyddfa Archwilio Cymru mewn ffordd fwy effeithiol ac atgyfnerthu ymhellach y dulliau o gydweithredu ag eraill sy'n ymwneud â gwella'r sector cyhoeddus. Mae prif-ffrydio'r dull arfer da ar draws busnes Swyddfa Archwilio Cymru, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol arsylwi enghreifftiau o arfer da a chyflwyno adroddiadau arnynt, a mwy o gydweithredu â chyrff cyhoeddus eraill yn gofyn am adnoddau ychwanegol.

### Gwaith i fodloni gofynion i fod yn fwy tryloyw ac agored

20 Er bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi bodloni gofynion y Comisiynydd Gwybodaeth i ddarparu canllaw i'w chynllun cyhoeddiadau (catalog o'r wybodaeth sydd ar gael ganddi), ychydig iawn a gyflawnwyd yn y maes hwn hyd at ddechrau 2010. Rwyf o'r farn, o ystyried ei rôl o ddarparu adroddiadau i'r

cyhoedd, ei bod yn bwysig i Swyddfa Archwilio Cymru weithredu fel esiampl o arfer da o ran bod yn agored ac yn dryloyw. Ond mae angen cryn dipyn o waith er mwyn cyflawni hyn. Mae angen sicrhau bod llawer mwy o wybodaeth am weithrediad Swyddfa Archwilio Cymru ar gael drwy'r cynllun cyhoeddiadau. Fodd bynnag, rhaid cymryd gofal wrth wneud hyn er mwyn sicrhau nad eir yn groes i'r Ddeddf Diogelu Data mewn perthynas â gwybodaeth bersonol ac nad eir yn groes i hawlfreintiau ac na cheir unrhyw ganlyniadau anfwriadol eraill. I raddau helaeth, mae'r un peth yn wir mewn perthynas â datblygu cofnod datgelu ar gyfer ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

21 Yn gysylltiedig â gofynion estynedig o ran bod yn dryloyw ac agored, rwyf yn disgwyl i nifer a chymhlethdod y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau eraill am wybodaeth gynyddu yn 2011-12. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i ddatblygiadau mewn perthynas ag un o'm rhagflaenwyr, ond hefyd o ganlyniad i bolisi llywodraeth y DU yn y maes hwn. Mae angen swm bach o adnoddau uniongyrchol ychwanegol i ymdopi â chynnydd o'r fath yn nifer y ceisiadau a/neu eu cymhlethdod. Bydd angen cynnydd mewn adnoddau beth bynnag er mwyn parhau i reoli'r llwyth gwaith Rhyddid Gwybodaeth presennol.

## Datblygu trefniadau mewn ymateb i ddeddfwriaeth cydraddoldebau

22 Er nad yw fersiwn derfynol yr is-ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i chwblhau eto, ymddengys yn debygol y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn pennu dyletswyddau ychwanegol i mi mewn perthynas â Deddf Cydraddoldebau 2010. Rwyf yn awyddus, beth bynnag, i ehangu'r gwaith a wnawn, ac yn arbennig drwy fy astudiaethau a'm gwaith arolygu, i edrych am gyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb.

## Atgyfnerthu trefniadau llywodraethu corfforaethol ymhellach

23 Rwyf yn cydnabod bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi bod yn ceisio swyddogaethau statudol mewn perthynas â threfniadau llywodraethu corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn ei bod yn angenrheidiol nac yn ddymunol aros am ddatblygiadau deddfwriaethol cyn gwneud unrhyw newidiadau. O ganlyniad, rwyf yn bwriadu cyflwyno pwyllgor taliadau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau tryloywder a thegwch wrth bennu taliadau staff Swyddfa Archwilio Cymru, a fu'n bwnc dadleuol yn Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Er y bydd rhai costau cychwynnol a pharhaus yn gysylltiedig â'r datblygiad hwn, rwyf o'r farn y bydd yn helpu i ddiogelu adnoddau cyhoeddus yn y tymor canolig a'r hirdymor, er enghraifft, drwy sicrhau bod pecynnau taliadau yn rhesymol a thrwy helpu i leihau'r nifer bosibl o gwynion ac anghydfodau cyflogaeth eraill yn Swyddfa Archwilio Cymru. Mae anghydfodau o'r fath yn ddrud o ran costau ac o ran yr amser a gaiff ei dreulio gan staff yn ymdrin â hwy.

24 Rwyf hefyd yn bwriadu treulio amser yn datblygu gwell polisïau TGCh ac Adnoddau Dynol. Unwaith eto, dylai'r buddsoddiad hwn helpu i leihau gwariant ar gwynion a materion disgyblu yn y tymor canolig a'r hirdymor.

## Datblygu trefniadau gwrth-wyngalchu arian ymhellach

25 Cyfeiriodd amcangyfrif y llynedd at yr angen i wneud trefniadau i fodloni Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007. Er bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar amheuon o gysylltiadau ag elw troseddau, gan gynnwys darparu hyfforddiant perthnasol i staff ymhob rhan o Swyddfa Archwilio Cymru, mae angen buddsoddiad pellach i sicrhau y caiff

adroddiadau eu cyflwyno bob tro y ceir cais i wneud hynny. Mae angen ymdrechion pellach o'r fath yn arbennig mewn perthynas ag ymarferion paru data, yn arbennig y Fenter Twyll Genedlaethol. Hefyd, yn ogystal â diddymu'r Comisiwn Archwilio a'r angen dilynol i ymgymryd â gwaith ychwanegol fel y nodir ym mharagraff 4a, rwyf yn bwriadu ehangu a datblygu ein gwaith yn y maes hwn er mwyn cynyddu ei effaith a'i effeithiolrwydd i'r eithaf.

### Gwella TGCh

26 Oherwydd natur y gwaith a wna, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweld gwybodaeth gyfrinachol a hynod sensitif. Mae mesurau caeth ar waith eisoes i ddiogelu data o'r fath, ond mae angen adolygu a gwella'r cyfleusterau yn barhaus, fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod data o'r fath yn parhau'n ddiogel.

27 Fel y nodwyd yn amcangyfrif y llynedd, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau'r broses uwchraddio ddiweddaraf ar gyfer ei hoffer TGCh, gan ddarparu system amgryptio soffistigedig ar gyfer pob un o'i gliniaduron a'i chofbinnau. Fodd bynnag, am fod angen adolygu diogelwch yn rheolaidd a sicrhau ein bod yn cynnal seilwaith TGCh dibynadwy a boddhaol yn gyffredinol, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn prynu offer newydd yn lle tua thraean o'i gliniaduron a'i pheiriannau pen desg yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12. Bydd hyn yn uwchraddio offer er mwyn sicrhau bod y systemau amgryptio a'r caledwedd diweddaraf yn cael eu defnyddio yn ogystal â gwella a datblygu'r ystad TGCh yn gyffredinol.

## Meysydd newydd a pharhaus o ansicrwydd sy'n effeithio ar Swyddfa Archwilio Cymru

### Treth Ar Werth

28 Fel yr adlewyrchwyd yn amcangyfrif y llynedd, mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) wedi cytuno y gall y trefniadau presennol a etifeddwyd gan y Comisiwn Archwilio sef ychwanegu TAW at ffioedd arolygu y gellir eu codi ar lywodraeth leol, a gwrthbwyso'r swm hwn yn erbyn TAW sy'n daladwy ar gyflenwadau a gwasanaethau, barhau hyd nes y cynhelir adolygiad o'r sefyllfa. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ehangu'r arfer hwn i waith o dan Fesur 2009.

29 Fel y llynedd, rwyf wedi tybio y bydd y trefniadau presennol yn parhau'n ddigyfnewid at ddiben llunio amcangyfrifon 2011-12, ac nid wyf wedi cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer TAW ychwanegol na ellir ei hadennill. Os bydd angen unrhyw newidiadau, bydd angen i mi drafod gyda'r Pwyllgor pa un a ddylid ariannu'r costau uwch drwy ffioedd ychwanegol, cyllid pellach o Gronfa Gyfunol Cymru neu drwy gyfuniad o'r ddau. Deallaf fod CThEm yn bwriadu penderfynu ar y mater hwn erbyn mis Mawrth 2011.

### Lefelau Ffioedd

30 O ganlyniad i ad-drefnu'r sector iechyd, roedd angen cryn dipyn o waith ychwanegol yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10. Roedd y gwaith yn deillio o'r ffaith bod nifer o gyfrifon wedi'u creu ar gyfer rhan o flwyddyn ac effaith cyflwyno'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Ar hyn o bryd, mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi o hyd yn cytuno ar y ffioedd prosiect ar gyfer 2010-11 a gallai canlyniad y trafodaethau hyn effeithio ar amcangyfrifon a gyflwynir yn y dyfodol. Yn ogystal, mae effaith tymor hwy yr ad-drefnu ar

ffioedd archwilio a goblygiadau ehangach hyn i Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau'n ansicr.

31 Dechreuodd elfennau allweddol o Fesur 2009 ym mis Ebrill 2010, gan gynnwys y gofyniad i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella o bob awdurdod gwella yng Nghymru. Er mwyn cynnal yr asesiadau hyn, bu'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru:

a pennu dull o asesu'r awdurdodau gwella;

b hyfforddi'r holl staff perthnasol er mwyn cydymffurfio â gofynion Mesur 2009;

c pennu timau newydd o staff i gynnal y gwaith; ac

d asesu effaith lefel y gwaith ar y gweithlu sy'n weddill.

32 Bydd darpariaethau pellach o dan Fesur 2009 yn dechrau ym mis Ebrill 2011, gan gynnwys y gofyniad i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad gwella ac asesu llawn o bob awdurdod. Mae Swyddfa Archwilio Cymru bellach wedi symud ymlaen i gam cyflawni'r gwaith hwn.

33 Bydd y cyfnod adolygu cyntaf yn dod i ben ym mis Ebrill 2011. Nawr bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dewis methodoleg ar gyfer y gwaith hwn bydd yn adolygu'r dull o weithredu a fabwysiadwyd ac yn nodi a oes modd creu arbedion a lleihau ffioedd prosiect ar gyfer y maes gwaith hwn. Gallai canlyniadau'r broses hon effeithio ar amcangyfrifon a gyflwynir yn y dyfodol.

## Enillion effeithlonrwydd a gyflawnwyd eisoes neu sydd ar droed

### Enillion effeithlonrwydd Creu'r Cysylltiadau

34 Mabwysiadodd fy rhagflaenwyr darged enillion effeithlonrwydd blynyddol gwirfoddol o un y cant i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y cyfnod 2006-07 hyd at 2010-11, yn unol â'r targed a bennwyd ar gyfer cyrff sector cyhoeddus gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn gyffredin â chyrff eraill, dehonglodd Swyddfa Archwilio Cymru y targed i olygu un y cant y flwyddyn o'r gwariant. Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2009-10, gwnaed o leiaf £988,000 (2008-09: £765,000) o arbedion archwiliedig cronnol, gan ragori ar y targed o £19,000 (2008-09: £53,000).

35 Gwnaed y prif enillion effeithlonrwydd drwy ddarparu'r un faint o waith archwilio gan gynyddu'r ffioedd o swm llai na'r cynnydd disgwyliedig llawn yng nghost y gwaith (cynyddwyd ffioedd un pwynt canran yn llai na'r gyfradd chwyddiant). O ganlyniad, llwyddwyd i arbed tua £170,000 y flwyddyn a gyflawnwyd drwy ddefnyddio arferion archwilio mwy effeithlon. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflawni arbedion penodol eraill drwy gyflwyno system cyfrifyddu a rheoli adnoddau newydd, a system Adnoddau Dynol a Chyflogres integredig. Mae'r systemau hyn yn esgor ar arbedion arian parod cylchol o tua £100,000 y flwyddyn ac maent wedi gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Hefyd, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno telerau contract hyblyg fel aelodau o staff parhaol i nifer o staff asiantaeth. Mae hyn nid yn unig yn rhoi mwy o barhad, effeithlonrwydd a chronfa o staff mwy hyfforddedig, mae hefyd wedi arwain at arbedion yn y symiau a fyddai fel arall yn daladwy mewn comisiwn i asiantaethau recriwtio. Gwnaed arbedion

drwy beidio ag ôl-lenwi swyddi rhai staff a adawodd a thrafodwyd contractau newydd ar gyfer gwasanaethau TGCh a nwyddau a gwasanaethau eraill.

### Gwelliannau o ran diogelu'r amgylchedd

36 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio gwella ei stiwardiaeth amgylcheddol. Mae arferion amgylcheddol cadarn yn ategu mesurau eraill i gynyddu effeithlonrwydd ac yn cefnogi'r amcan ehangach i hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy ystyried effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ein gwaith a'n gweithgareddau. Ymhlith rhai o'n cyflawniadau penodol mae'r canlynol:

a Achrediad lefel 3 y Ddraig Werdd ar gyfer pedair o'n prif swyddfeydd. Mae'r achrediad hwn yn cynnwys monitro CO2, rheoli gwastraff, cydymffurfio â deddfwriaeth a monitro a chyflwyno adroddiadau amgylcheddol.

b Cwblhau gwelliannau i bob un o'r prif swyddfeydd ym mis Mai 2010, er mwyn gallu defnyddio dulliau fideo-gynadledda (VC) yn ehangach. Mae hyn yn adeiladu ar ddefnydd cynyddol o fideogynadledda, a chynhaliwyd 473 o sesiynau yn 2009-10 (cynnydd o 364 y cant ers 2007-08). Mae'r cyfleusterau gwell eisoes wedi arwain at gynnydd pellach mewn defnydd. Dylai hyn leihau'r angen i staff a rhanddeiliaid allanol deithio, a dylai leihau costau ffôn yn y tymor hwy.

c Cynllun peilot i dreialu'r defnydd o sesiynau cyfrifiaduron personol 1:1 mewn ardaloedd anghysbell a sefydlu gwell cysylltiadau fideogynadledda gyda rhai cleientiaid penodol sy'n defnyddio'r cyfleuster. Nod y camau hyn yw gweithio tuag at gyflawni un o'n targedau amgylcheddol - sef gostwng milltiroedd ceir busnes bump y cant - ac ar hyn o bryd rydym wedi cyflawni gostyngiad cyfwerth â 3.3 y cant o'n llinell sylfaen.

d Parhau i ostwng y defnydd o bapur a gwastraff, drwy ddefnyddio mwy o ddulliau e-adrodd, dyfeisiau sganio, a mesurau eraill fel slipiau cyflog ar-lein. Mae adroddiadau papur wedi gostwng tua 40 y cant ac rydym wedi arbed tua 8 tunnell o wastraff papur ac wedi lleihau ein defnydd o bapur 15 y cant yn ystod 2009-10 o gymharu â'r llinell sylfaen. Ein nod yw parhau i leihau ein defnydd o bapur a mathau eraill o wastraff yn ystod y cyfnod sydd i ddod.

## Gwelliannau effeithlonrwydd arfaethedig a dulliau eraill o gyfyngu costau

### Gostyngiad mewn costau cyflog

37 Ar hyn o bryd, mae costau staff tua £16.4 miliwn, sef eitem unigol fwyaf o wariant Swyddfa Archwilio Cymru. Mewn ymateb i'r cyfnod presennol o galedi, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno prosiect cynllunio'r gweithlu gan edrych ar nifer y staff o linell sylfaen o ddim ac ystyried y cymysgedd sgiliau sydd ei angen i gyflawni gwaith y Swyddfa.

38 Mae canfyddiadau cychwynnol y prosiect hwn wedi nodi'r angen am gymysgeddau sgiliau gwahanol mewn rhai meysydd, ac, o ganlyniad, cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru gynllun diswyddiadau gwirfoddol ym mis Mawrth 2010 i hwyluso'r newidiadau priodol. Mae 14 aelod o staff wedi manteisio ar y diswyddiadau gwirfoddol, a dylai'r prosiect fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2010. Dengys yr arwyddion cychwynnol y ceir arbedion o bedwar y cant o ran costau cyflogau o flwyddyn i flwyddyn gyda gostyngiad o tua phump y cant o ran nifer y staff. Caiff cost gychwynnol yr ymarfer hwn ei hadennill drwy arbedion cyflog mewn llai na dwy flynedd ac wedi hynny, bydd arbedion blynyddol parhaus. Mae'r gost hon

wedi'i chynnwys yn rhannol yn yr amcangyfrif, a daw'n rhannol o ffynonellau ariannu eraill.

39 Er mwyn lleihau costau cyflogau ymhellach mewn termau real, rwyf yn bwriadu sicrhau cyfyngiad parhaus ar gyflogau er na fu unrhyw ddyfarniadau cyflog ar gyfer 2009-10 a 2010-11. Hefyd, lle ceir gwastraff staff naturiol ni chaiff pob swydd ei llenwi. Caiff hyn ei bennu yn ôl anghenion busnes gan ystyried canlyniadau'r ymarfer cynllunio'r gweithlu.

40 Rwyf hefyd yn bwriadu lleihau costau cysylltiedig fel ffioedd cyfreithiol drwy geisio lleihau'r adnoddau a ddefnyddir i ymdrin â chwynion gan staff ac anghydfodau cyflogaeth eraill. Cyflawnir hyn drwy amrywiaeth o welliannau llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys y pwyllgor taliadau a'r polisïau cliriach y cyfeirir atynt uchod.

## Adolygu costau trafnidiaeth a chyfleustodau

41 Rwyf yn bwriadu ailnegodi'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â lwfansau trafnidiaeth a cheir prydles gyda'r undebau llafur. Nod y broses hon yw darparu polisi fflyd mwy cost effeithiol a chynaliadwy a chyflwyno buddiannau ychwanegol o ran iechyd a diogelwch a'r amgylchedd.

42 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru darged o leihau ei defnydd o drydan a nwy ddau y cant eleni. Mae'r targed hwn yn un o'r targedau sy'n anelu at sicrhau y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cadw ei statws y Ddraig Werdd ac yn lleihau ei chostau cyffredinol mewn perthynas â chyfleustodau.

43 Cafodd ein cyfleusterau fideo-gynadledda eu gwella yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10. Mae hyn wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn a disgwylir y bydd yn cyflawni arbedion pellach wrth i lefel y defnydd gynyddu. Yn ogystal â'r budd i'r amgylchedd, mae hyn hefyd yn llwyddo i leihau nifer y teithiau sydd eu hangen, gan arwain at fuddiannau o ran arbedion ariannol ac arbedion amser, a gwella iechyd a diogelwch staff.

## Lleihau costau eraill

44 Er mwyn cyflawni ein targedau ariannol ar gyfer 2010-11, rwyf yn bwriadu gohirio gwariant mewn nifer o feysydd, yn ogystal â chyflawni effeithlonrwydd ac arbedion pellach mewn amrywiaeth eang o feysydd gan gynnwys tanysgrifiadau, gwaith ymgynghori ac ystafelloedd cyfarfod allanol. Mae adolygiad manylach yn mynd rhagddo ar hyn o bryd er mwyn nodi arbedion ac effeithlonrwydd pellach.

## Effaith lefelau ariannu a gofynion posibl yn y dyfodol

45 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12, bydd lefel yr adnoddau a ariennir gan y papur hwn yn ei gwneud yn bosibl i'r un lefel o weithgarwch a gwasanaeth a ddarparwyd yn y gorffennol barhau o hyd, ond gallai gyfyngu ar fy ngallu i ymateb i adroddiadau ychwanegol a cheisiadau ychwanegol am wybodaeth a chyngor. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r galw cyfnewidiol am waith a'r lefel o ansicrwydd ynghylch ffioedd, mae'n bosibl y bydd angen diswyddo staff yn y dyfodol. Gallai'r cyfryw gostau fod yn sylweddol a gallai fod angen cyllid pellach bryd hynny er mwyn sicrhau arbedion pellach yn y dyfodol.

**Huw Vaughan Thomas**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Hydref 2010

# Atodiad 1 – Crynodeb o ofynion cyllidebol 2011-12 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllidebol Gweinidogion Cymru o dan adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

1 O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), rhaid i Weinidogion gyflwyno Cynnig Cyllidebol i'r Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi rhai unigolion perthnasol, gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol, i ddefnyddio adnoddau, cadw incwm a chodi arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru. Pennir cyllideb yr Archwilydd Cyffredinol, o dan baragraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006, ar ôl i'r PCC archwilio ei amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau, a'i gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

2 O ran gwasanaethau a dibenion yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2012, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r canlynol:

- **a** yr adnoddau sydd i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- **b** yr adnoddau sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol y gall eu cadw (yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru); a'r
- **c** swm y gellir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol.

3 Ceir crynodeb o'r gofynion hyn, na ellir ond darparu amcangyfrifon ar eu cyfer oherwydd amrywioldeb llifau incwm, yn Nhabl 1 isod.

4 Yn ogystal â'r symiau a ddangosir yn Nhabl 1, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cronni adnoddau o weithgareddau llywodraeth leol o dan Ran 1 ac Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, Rhan 2 o Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, y caniateir iddo eu cadw i'w defnyddio mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau o dan y darpariaethau statudol hynny. Yn ystod 2011-12, amcangyfrifir y bydd yr adnoddau hyn yn dod i gyfanswm o £11.379 miliwn (2010-11: £11.920 miliwn). O dan Baragraff 9(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006, awdurdodir yr Archwilydd Cyffredinol i gadw incwm o'r fath yn hytrach na'i dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw felly yn rhan o'r swm i'w awdurdodi gan Gynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(b) o Ddeddf 2006 ond fe'i cynhwysir er gwybodaeth.

## Tabl 1 – Crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2011-12

| | £ miliwn |
|---|---|
| Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a chyflawni swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig llywodraeth leol [1]. | 4.853 |
| Adnoddau a gronnir o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (ac eithrio incwm o dan Ran1 ac Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, a Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009), costau eraill a gaiff eu hadennill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol a phroffesiynol a thechnegol ac ati, costau a gaiff eu hadennill o ran staff sydd ar secondiad, ad-daliadau o fenthyciadau staff, taliadau prydlesu ceir a gaiff eu hadennill, a'r llog a dderbyniwyd ar ffioedd balansau gweithredol i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru [2]. (Gweler Atodiad 2 Tabl 2) | 8.024 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan yr Archwilydd Cyffredinol [3]. | 4.753 |

*[1] Dyma'r refeniw a'r gwariant cyfalaf net o ran adnoddau y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol eu hawdurdodi drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(a) o Ddeddf 2006.*

*[2] Dyma'r incwm sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio'r incwm sy'n codi o weithgareddau llywodraeth leol) y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol ei awdurdodi drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(b) i'w ddefnyddio ar wasanaethau cysylltiedig yn hytrach na chael ei dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru.*

*[3] Dyma'r arian parod sydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer taliadau net amcangyfrifedig yr Archwilydd Cyffredinol (taliadau llai derbyniadau) sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn i'w hawdurdodi gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(c) o Ddeddf 2006.*

# Atodiad 2 – Dadansoddiad manwl o incwm a gwariant amcangyfrifedig ar gyfer 2011-12

Mae Tabl 1 yn nodi fy amcangyfrif manwl o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2011-12 o gymharu â'r ffigurau amcangyfrifedig ar gyfer 2010-11, gan gynnwys dadansoddiad o'r prif feysydd gwariant.

**Tabl 1 – Amcangyfrif manwl o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru 2011-12**

| | | 2010-11 | | 2011-12 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm | | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn |
| Archwilio cyfrifon a gwaith arolygu/mesur cyrff llywodraeth leol | (i) | | 9.951 | | 9.585 |
| Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (a ddefnyddir nawr ar gyfer gwaith mesur) | (ii) | | 1.721 | | 1.669 |
| Ardystio hawliadau am grant | (iii) | | 2.914 | | 2.300 |
| Archwilio cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig | (iv) | | 1.350 | | 1.350 |
| Archwilio cyfrifon ac archwilio perfformiad cyrff GIG Cymru | (v) | | 6.338 | | 4.334 |
| Arall | (vi) | | 0.418 | | 0.165 |
| Cyfanswm yr incwm | | | 22.692 | | 19.403 |
| Gwariant | | | | | |
| Costau staff a chostau cysylltiedig | (vii) | | 16.356 | | 15.427 |
| Ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr penodedig, contractwyr asiantaeth ac ymgynghorwyr | (viii) | | 5.179 | | 3.413 |
| Swyddfeydd a chostau cysylltiedig | (ix) | 1.342 | | 1.155 | |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | (x) | 1.899 | | 1.633 | |
| Taliadau corfforaethol | (xi) | 2.763 | | 2.428 | |
| Taliadau cyfalaf | | 0.200 | 6.204 | 0.200 | 5.416 |
| Cyfanswm gwariant refeniw | | | 27.739 | | 24.256 |
| Gwariant cyfalaf | | | 0 | | 0 |
| Cais net am adnoddau | | | 5.047 | | 4.853 |
| Gofyniad arian parod net | | | 5.074 | | 4.753 |

*Nodiadau*

*(i) Disgwylir i incwm ffioedd o archwilio cyfrifon a gwaith arolygu/mesur leihau ar ôl cyflwyno IFRS, ynghyd ag adolygiad o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn drosiannol gyntaf Mesur 2009 a'r cyfleoedd a nodir i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwaith hwn.*

*(ii) Lleihawyd grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella £25,000 ar gyfer 2010-11 a disgwylir iddo leihau ymhellach yn unol â chwyddiant. Dylid nodi er nad yw enw'r grant wedi newid ar ôl i Raglen Cymru ar gyfer Gwella ddod i ben, defnyddir y grant hwn bellach i ariannu gwaith mesur.*

*(iii) Bydd incwm ardystio grantiau yn lleihau yn unol â gostyngiad yn lefel y gwaith sydd ei angen.*

*(iv) Disgwylir i'r ffioedd ar gyfer gwaith archwilio cyfrifon mewn perthynas â Llywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig barhau'n sefydlog, a fyddai'n golygu gostyngiad yng nghost y gwaith mewn termau real.*

*(v) Bydd incwm eleni o archwilio cyrff iechyd yn sylweddol is. Y prif reswm am hyn yw'r ffaith ein bod wedi gorfod archwilio cyfrifon chwe mis a chyfrifon deuddeg mis y GIG y llynedd o ganlyniad i'r ad-drefnu a ddigwyddodd yng nghanol y flwyddyn.*

*(vi) Disgwylir i incwm arall, fel llog banc, leihau oherwydd balansau arian parod is.*

*(vii) Disgwylir i gostau staff a chostau cysylltiedig leihau yn unol â gostyngiad bach yn nifer y staff yn bennaf o ganlyniad i'r cynllun diswyddiadau gwirfoddol, ynghyd â chynllun i atal cyflogau pawb ond yr aelodau iau o staff.*

*(viii) Disgwylir i'r ffioedd sy'n daladwy i gontractwyr leihau gan y bydd angen llai o waith ar ôl cwblhau lefel frig y gwaith cyfrifon sydd ei angen o ganlyniad i ailstrwythuro'r GIG, fel yr eglurir yn nodyn (v) uchod.*

*(ix) Disgwylir i gostau adeiladau leihau £187,000 yn gyffredinol wrth i arbedion gael eu gwireddu o derfynu prydlesau yn dilyn y broses o gyfuno adeiladau yng Nghaerdydd.*

*(x) Disgwylir i gyflenwadau a gwasanaethau leihau £266,000 o ganlyniad i ostyngiadau a ragwelir yn swm y gwaith.*

*(xi) Disgwylir i gostau taliadau corfforaethol leihau o ganlyniad i well cyfleusterau fideogynadledda, sy'n lleihau costau teithio a chostau cynhaliaeth cysylltiedig, costau recriwtio a hyfforddi.*

### Tabl 2 – Cysoni incwm â Thabl 1

Mae adnoddau cronnus ac eithrio o dan Ran 1 ac Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, a Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn cynnwys:

| | 2010-11 £ miliwn | 2011-12 £ miliwn |
|---|---|---|
| Ardystio hawliadau am grant | 2.914 | 2.300 |
| Archwilio cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig | 1.350 | 1.350 |
| Archwilio cyfrifon ac archwilio perfformiad cyrff GIG Cymru | 6.338 | 4.334 |
| Arall | 0.170 | 0.040 |
| **Cyfanswm** | **10.772** | **8.024** |

### Tabl 3 – Cysoni'r gofyniad am adnoddau â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

| | 2010-11 £ miliwn | 2011-12 £ miliwn |
|---|---|---|
| Cais net am adnoddau | 5.047 | 4.853 |
| Symudiad mewn dyledwyr a gwaith sy'n cael ei wneud, credydwyr a darpariaethau, ac incwm gohiriedig ar ddiwedd y flwyddyn | 0.227 | 0.100 |
| Taliadau cyfalaf (llog a dibrisiant) | (0.200) | (0.200) |
| Gofyniad arian parod net | 5.074 | 4.753 |

# Atodiad 3 – Effaith bosibl diddymu'r Comisiwn Archwilio

1 Yn ystod fy nghyflwyniad i'r PCC ym mis Hydref, gwneuthum nifer o bwyntiau am effaith bosibl diddymu'r Comisiwn Archwilio ar Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r arwyddion cyfredol yn awgrymu na fydd llawer o amser i ddatblygu atebion i amrywiaeth o gwestiynau pwysig am ddyfodol trefniadau archwilio cyhoeddus yn Lloegr. Mewn un ystyr, mae'r risgiau strategol i Gymru yn fach; Lloegr oedd yr unig wlad yn y DU a chanddi ddau gorff archwilio (roedd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gweithredu ag un corff o'r fath) felly gellid ystyried bod Lloegr yn dilyn y drefn. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu am yr effaith y gallai deddfwriaeth a ddrafftiwyd ar fyrder o bosibl ei chael ar ein deddfwriaeth a'n rolau.

2 Mae fy staff mewn cysylltiad â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio i sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf. Rwyf wedi ysgrifennu at y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol ac at fy nghydweithwyr mewn swyddi cyfatebol i awgrymu y dylem ystyried y canlyniadau gyda'n gilydd. Rwyf yn awyddus i weithio gyda swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau, os bydd canlyniadau deddfwriaethol, y cânt eu nodi gennym yn gynnar.

3 I'r perwyl hwnnw, cadarnhaodd y PCC y byddai'n 'cadw llygad' ar y ddeddfwriaeth, rhag ofn y byddai unrhyw fater penodol yn codi, yn arbennig o ran y ffordd y cynhelir gwaith ar y cyd rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a chyrff sydd wedi'u lleoli yn Lloegr. Cytunodd y PCC y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol gan fod y gallu gan y pwyllgor hwnnw i graffu ar ddeddfwriaeth sydd ar ei hynt drwy San Steffan.

4 Mae'r atodiad hwn yn canolbwyntio ar yr effaith bosibl y gallai diddymu'r Comisiwn Archwilio ei chael ar Swyddfa Archwilio Cymru a'i gallu i gyflawni ei hamcanion.

## Cynnydd posibl yng nghostau Swyddfa Archwilio Cymru

5 Mae nifer o feysydd cyffredin rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Comisiwn Archwilio lle y gallai diddymu'r Comisiwn Archwilio gyfrannu at gostau uwch i Swyddfa Archwilio Cymru. Ymhlith y rhain mae'r canlynol:

- i Eithriadau TAW
- ii Caffaeliadau ar y cyd
- iii Trefniadau ardystio grantiau

6 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn wynebu risg ar hyn o bryd o ran y posibilrwydd o golli'r arian sy'n gysylltiedig â TAW mewn perthynas â gwaith arolygu mewn archwiliadau llywodraeth leol ac iechyd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn trafod ei statws TAW gyda CThEM ers sawl blwyddyn ac mae wedi gofyn am esboniad o'r trefniadau a fyddai'n ei galluogi i adennill yr holl TAW a delir ganddi. Mae'r atebolrwydd posibl yn uchel ac amlygwyd y mater hwn ymhob papur amcangyfrif blaenorol a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

7 Mae'r Comisiwn Archwilio yn rhannu rhai costau caffael gyda Swyddfa Archwilio Cymru. Ar hyn o bryd, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Audit Scotland yn cyfrannu at gostau adolygiad o'r tybiaethau actiwaraidd a wnaed gan yr actiwariaid amrywiol sy'n rhan o'r gwaith o baratoi ffurflenni FRS 17 y mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol eu defnyddio i roi cyfrif am bensiynau. Mae'n bosibl na fyddwn bellach yn gallu fforddio parhau â'r gwaith hwn heb gyfranogiad y Comisiwn Archwilio gan ei fod yn cyfrannu rhyw £36,000 at y gwaith hwn ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y gallai trefniant o'r fath barhau gyda chyflenwyr newydd ond byddai'n anos ei gydgysylltu a gallai fod yn fwy costus oherwydd byddai angen rhannu cyfraniad y Comisiwn Archwilio yn gyfartal rhwng Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Cymru.

8 Mae'r Comisiwn Archwilio yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu trefniadau ar gyfer cynlluniau ardystio grantiau i'r DU gyfan hy, Budd-daliadau Tai a Threth Gyngor, a chyfraniadau Pensiwn Athrawon, ac ar hyn o bryd mae'n dylanwadu ar y gwaith a wneir mewn nifer o feysydd eraill. Er enghraifft, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru drwydded ar hyn o bryd i ddefnyddio adnodd archwilio'r Comisiwn Archwilio i hwyluso ei gwaith ar fudd-daliadau tai, sy'n costio tua £10,000 y flwyddyn. Bydd angen hefyd i Swyddfa Archwilio Cymru gytuno ar amodau parhaus i'r drwydded gyda'r Comisiwn Archwilio, yn ogystal â phenderfyniadau a wneir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar ddyfodol archwiliadau grant.

9 Gallai newidiadau i ddull gweithredu adrannau'r Llywodraeth o ran ardystio grantiau, o ganlyniad i ddiddymu'r Comisiwn Archwilio, gael effaith sylweddol yng Nghymru. Gallai ffioedd ardystio sy'n daladwy ar hyn o bryd i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn y fantol os bydd DWP yn penderfynu penodi archwilwyr gwahanol. Amcangyfrifir y gallai hyn gael effaith net o tua £150,000. Hefyd, oni fydd DWP yn dynodi methodoleg, bydd angen i mi ddatblygu fy methodoleg fy hun neu, os bydd y Comisiwn yn hepgor rhai amodau penodol sy'n gysylltiedig â'r drwydded, bydd angen i mi ddiweddaru a chynnal adnoddau'r Comisiwn ar gyfer y dyfodol.

10 Yn yr un modd, os bydd yr Asiantaeth Pensiynau Athrawon yn penderfynu penodi archwilwyr gwahanol, amcangyfrifir y gallai hyn gael effaith net o tua £15,000.

## Gostyngiad posibl o ran gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru

11 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru nifer o feysydd lle y mae'n cydweithio'n agos â'r Comisiwn Archwilio i ddatblygu a rhannu gwybodaeth hy:

- i Cyswllt Technegol o ran Archwiliadau Ariannol
- ii Grantiau
- iii Llywodraethu
- iv Twyll

12 Ar ôl diddymu'r Comisiwn Archwilio, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn colli cysylltiadau rhwydweithio anffurfiol a'r gallu i rannu a thrafod materion cyffredin gyda'r Comisiwn Archwilio. Mae hon yn broblem fawr i Dîm Technegol Swyddfa Archwilio Cymru gan ei fod yn trafod materion heriol a chymhleth yn aml gyda'r Comisiwn Archwilio er mwyn profi dilysrwydd dulliau gweithredu ac er mwyn sicrhau cysondeb. At hynny, ni fyddai gennym ychwaith fynediad i ddeunydd hyfforddi a chanllawiau'r Comisiwn Archwilio a byddem yn colli gwybodaeth am gynhyrchion archwilio electronig. Bydd yn rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â sefydliadau eraill yn y DU,

lenwi'r bwlch a adewir yn sgîl diddymu'r Comisiwn Archwilio. Felly, byddai angen adnoddau ychwanegol ar Swyddfa Archwilio Cymru i gynnal y lefel bresennol o wybodaeth.

13 Er bod cyfundrefnau'r Cynghorau Cymuned yng Nghymru a Lloegr wedi dargyfeirio rhywfaint ers 2005, mae gan Dîm Technegol Swyddfa Archwilio Cymru gysylltiadau agos â'r Comisiwn Archwilio ar faterion cyffredin gan gynnwys deddfwriaeth a chymorth cyffredinol. Gallai effaith colli cymorth y Comisiwn Archwilio fod gwerth tua £15,000.

## Meysydd eraill lle y gellid effeithio ar Swyddfa Archwilio Cymru

14 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio yn y meysydd canlynol:

- i NFI
- ii Y gyfundrefn sicrwydd cyfyngedig
- iii Ardystio grantiau
- iv Y Fforwm Archwilio Cyhoeddus (PAF)
- v Ymatebion i safonau Archwilio Ariannol
- vi Arolygiadau'r Swyddfa Gartref
- vii Astudiaethau i feincnodi perfformiad cyrff cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr
- viii Cyswllt â'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

15 Gallai cynrychiolaeth ar gyrff gwneud penderfyniadau technegol gynyddu. Mae perygl hefyd y bydd llai o fewnbwn/her o ran Cod Llywodraeth Leol CIPFA a nodiadau canllaw eraill, gan olygu mai Swyddfa Archwilio Cymru fydd y corff arweiniol o bosibl o ran llywio datblygiad y dogfennau hyn.

16 Disgwylir i arolygiadau drosglwyddo o'r Comisiwn Archwilio i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ar hyn o bryd mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal rhai arolygiadau a bydd angen eglurder o ran rolau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag arolygiadau yn y dyfodol.